



hwyrgerdd
nightmusic



Clasurol Cyfoes ac yn y Lolfa

Gyda **phedair cyngerdd swynol** dros y tymor, mae *hwyrgerdd* yn cyflwyno rhai o leisiau amlycaf a mwyaf unigryw heddiw mewn ffordd hamddenol, i'ch cyflwyno i genres anghyfarwydd. Mewn partneriaeth â'r Cyfansoddwr Cyswilt, Freya Waley-Cohen mae *hwyrgerdd* yn rhan o greu'r genhedlaeth nesaf o gerddoriaeth siambr gyda pherfformiadau **cyntaf talent ifanc gorau Cymru drwy Tŷ Cerdd!**

O unawdwyr electroacwstig i ensembles anarferol, bydd pob perfformiad yn **Lolfa L3**. Bydd y perfformiadau'n rhai clos, gyda goleuadau atmosfferig a chyfarwyddiadau llafar i gyflwyno bydoedd cerddorol. Bydd pob digwyddiad yn eich swyno lawn cymaint ag y bydd yn anffurfiol, a bydd digon o gyfle i sgwrsio â'r artistiaid rhwng eu perfformiadau.

Pris tocynnau

Pris Safonol — £10

I gynnwys un ai gwrw drafft, gwîn, diod feddal neu jin a thonig o'r bar ar Lefel 3. *Cwrw drafft yn cynnwys Carling, Cwrw Brains Llyfn a Seidr Stowford Press).

Cyfeillion Neuadd Dewi Sant | Plant dan 16 | Dros 60 | Hawlwyr | Pobl anabl ynghyd ag un cydymaith (yn cynnwys diod – darllenwch y rhestr o'r diodydd a gynigir uchod - **£2 yn llai** **£3** - Myfyrwyr (heb gynnwys diod).

A ffi bostio opsiynol o £1.50 docynnau gael eu postio.



Supported by
The National Lottery[®]
through the Arts Council of Wales

Cefnogwyd gan

Y Loteri Genedlaethol
trwy Gyngor Celfyddydau Cymru

In association with:

Tŷ CERDD
hyrwyddo cerddoriaeth Cymru
promoting the music of Wales


Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government


International Concert Series | Rhyngwladol



Rhodri Davies, Telyn ac electroneg
Angharad Davies, ffidl aphiano
Tim Parkinson *Piano*

Rhoi llwyfan i waith cyfansoddi a chyfansoddi ar y pryd sy'n flaengar, arbrofol a Chymreig.

Mae cerddoriaeth **Tim Parkinson** wedi cael ei disgrifio fel ail-greu cerddoriaeth o'r gwaelod i fyny, gan greu synau unigryw, mae ei waith yn dychwelyd yn ddigfnewid i osodiadau pwysig ynghylch ystyr synau. Mae **Rhodri Davies** yn canu delyn, delyn electronig ac electronigau byw ac mae'n creu gosodiadau i'r delyn gyda gwynt, dwr, iâ, iâ sych a thân. Mae'r Gymraes **Angharad Davies** yn cyfansoddi, yn cyfansoddi ar y pryd ac yn perfformio ar y feiolin. Mae ei dull o drin sain yn cynnwys gwrando'n astud ac edrych y tu hwnt i gyfyngiadau sonig ei hofferyn, ei hyfforddiant clasurol a disgwyliadau perfformio.


Mainly Two, George Fu a Thomas Ang

Dydd Mawrth 14 Ionawr 2020 — 8pm

Sefydlwyd Mainly Two - Marie Schreer a John Garner - yn 2013 gyda'r bwriad o ymestyn y repertoire ar gyfer dwy fiolín gan greu mwy o ymwybyddiaeth i gyfrwng sy'n aml yn cael ei ddiystyru.

Mae George Fu yn berfformiwr brwd o gerddoriaeth gyfoes ac yn gyfansoddwr prysur sydd wedi perfformio ar draws America ac Ewrop. Gan fod ganddo ddiddordeb mewn gweithiau amlddisgyblaethol, mae'n gerddor amryddawn: cerddor siambr, y cyd ac ensemble .

Mae Thomas Ang yn adnabyddus fel arbenigwr mewn cerddoriaeth Nikolai Kapustin, ac mae wedi perfformio ac arwain cyflwyniadau cyntaf gweithiau o'i gyfansoddiadau yn y DU, UDA, Singapoôr, Awstralia a Thaiwan.



Tabea Debus a Laefer Sax Quartet

Dydd Mawrth 14 Ebrill 2020 — 8 pm

Yn garismataidd a meistrolgar, mae Tabea Debus wedi rhoi hwb mawr i gerddoriaeth recorder, gan gyfuno hanfodion y cyfnod Baróc gyda gwaith athletaidd gan arloeswyr cyfoes.

Yn ymuno â hi mae sacsoffonau ewn y Laefer Quartet, sydd â'u cymysgedd eclectic yn cynnwys sawl darn comisiwn newydd yn ogystal â rhoi gwisg fywiog newydd ar glasurol sy'n heneiddio dim.

Sean Shibe

Dydd Mawrth 12 Mai 2020 — 8 pm

Ni fyddwch yn meddwl am chwaraewyr gitâr yn yr un ffordd eto ar ôl gwrando ar enillydd Artist Ifanc y Flwyddyn yr RPS Sean Shibe - mae'r un mor wefreiddiol yn chwarae Fender Stratocaster ag ydyw yn chwarae cerddoriaeth liwt John Dowland.

Law yn llaw â llwyddiant ei recordiad cyntaf, cafodd prosiect *rhyfeddol* Sean Shibe softLOUD ei berfformio am y tro cyntaf yng Nghwyliau East Neuk a Chaeredin - rhaglen ddatguddiol yn cyfod cerddoriaeth liwt Jacobaidd ar gyfer gitâr glasurol, gyda threfniadau gitâr drydan o repertoire aml-haen yn cynnwys marwnad bwerus y cyfansoddwr a enillodd Wobr Pulitzer Julia Wolfe, LAD, (a ysgrifennwyd yn wreiddiol ar gyfer 9 bagbib) a Killer David Lang. Mae'r gwaith hwn yn rhan o'r recordiad softLOUD newydd.



Ganwyd Sean yng Nghaeredin yn 1992 o darddiad Saesneg a Siapaneaidd. Astudiodd yn Ysgol Gerddoriaeth Frenhinol yr Alban a chydag Paolo Pegoraro yn yr Eidal. Yn 20 oed, ef oedd y gitarydd cyntaf i gael ei ddewis ar gyfer cynllun Cenhedlaeth Newydd o Artistiaid BBC Radio 3 a'r unig gitarydd unawdol i ennill Cymrodoriaeth Ymddiriedolaeth Borletti-Buitoni.



St David's Hall 029 2087 8444
Neuadd Dewi Sant www.stdavidshallcardiff.co.uk